PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 5 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Richard Tebboth (Cadeirydd)<br>James Downe, Hugh Thomas a/ac Hollie Edwards-Davies |
| | Y Cynghorwyr: Cunnah, Sandrey, a/ac Williams |
| | Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas |

4 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am Absenoldeb oddi wrth Lizz Roe.

5 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor ar 21 Mehefin 2018 wedi ailbenodi Hollie Edwards Davies fel Aelod Annibynnol am dymor arall.

6 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

Agenda'r Pwyllgor Safonau a Moeseg - 13 Mehefin 2018

7 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd i'r Cyngor gytuno ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ar 24 Mai 2018.

8 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

9 : AROLWG BLYNYDDOL AELODAU 2017

Nododd y Pwyllgor ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol Aelodau 2017.

Trafododd yr Aelodau'r cyfeiriadau at hyfforddiant gwydnwch i Aelodau. Cynghorodd y Swyddog Monitro fod y mater wedi'i drafod gydag Arweinwyr a Chwipiaid a chafwyd nifer o awgrymiadau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai arolwg yn y dyfodol yn gofyn am farn yr Aelodau ar wella hyfforddiant gwydnwch i Aelodau.

Dywedodd Aelod fod dwy ran o dair o gynghorwyr yn ddynion a chyfeiriwyd mewn ymatebion i'r arolwg 2017 at 'ddiwylliant llancaidd'. Ystyriwyd y gallai dirprwyo'r mater i'r Grŵp Menywod Trawsbleidiol awgrymu o bosibl bod y mater yn broblem i fenywod ddelio ag ef. Fodd bynnag, mae'n fater i'r Cyngor cyfan a dylai unrhyw ymateb fod yn ymateb gan y Cyngor cyfan. Ystyriodd y Cadeirydd fod yr Arolwg Aelodau yn ymarfer o ran casglu tystiolaeth a bod yr atgyfeiriad at y Grŵp Menywod yn estyniad o'r ymarfer casglu tystiolaeth hwnnw a allai roi cipolwg pellach a helpu i gadw'r mater 'yn fyw'.

Cytunodd y Swyddog Monitro a gofynnodd i'r Aelodau nodi, er bod pryderon o hyd, ei bod yn ymddangos bod Aelodau bellach yn fwy parod i roi gwybod am y materion hyn.

Dywedodd Aelod nad oedd yr Arolwg Blynyddol Aelodau o reidrwydd yn cymharu â'r Arolwg Ymadael, a gwblhawyd gan yr Aelodau ar ddiwedd eu tymor mewn swydd. Nododd yr Aelod y gwelliannau a oedd wedi'u gwneud ers yr Arolwg Ymadael, croesawyd y monitro mwy rheolaidd a nodwyd fod yr arolwg hefyd wedi helpu i ddod â Safonau a Moeseg i ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ehangach.

Roedd y Cadeirydd o'r farn na ellir gwahanu ymddygiad Aelodau oddi wrth eu lles, gan y gallai straen ychwanegol arwain at ymddygiad amhriodol. Disgwylir i gynghorwyr fod yn wydn ac felly roedd yn bwysig bod gan Aelodau ffyrdd i drafod, rhannu a mynd i'r afael â materion o'r fath. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Arolygon Aelodau'r dyfodol gynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â gwydnwch a/neu les.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

## 10 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 4

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

## 11 : R (HARVEY) V CYNGOR TREF LEDBURY (2018) – DIWEDDARIAD CYFRAITH ACHOSION

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

## 12 : PANEL DYFARNU AR GYFER CYMRU – CANLLAW SANCSIYNAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn caniatáu i'r Aelodau ystyried Canllawiau Sancsiynau Newydd oddi wrth Banel Dyfarnu Cymru, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2018. Cafodd y canllawiau ar sancsiynau eu hatodi i'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y canllawiau'n anelu at gynorthwyo Tribiwnlysoedd i wneud penderfyniadau teg, cymesur a chyson ynghylch y cosbau y dylid eu defnyddio mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad lleol. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y canllawiau pe byddai achosion yn cael eu cyfeirio at wrandawiad.

Nododd y Cadeirydd fod y canllawiau'n argymell cosbau llymach os yw achosion o gamymddwyn yn ymwneud â gwahaniaethu neu lle mae Aelodau'n codi ofn ar swyddogion.

Nodwyd nad oedd y Canllawiau yn gyfreithiol rwymol, nad oedd y gyfraith wedi newid, a bod y ddogfen yn arweiniad yn unig.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

13 : OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR BLYNYDDOL 2017/18 AR GYFER CYNGOR CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn galluogi'r Aelodau i ystyried llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017/18. Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y llythyr yn gadarnhaol i Gaerdydd, gyda llai o gwynion yn cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn.

Nododd yr Aelodau'r nifer isel o gwynion a dderbyniwyd a'u cyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyflwyno'r protocol datrysiad lleol yn cael effaith. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y protocol wedi'i gyflwyno'n wreiddiol fel dull o ymdrin â chwynion Aelodau yn erbyn Aelodau, ond fe'i diwygiwyd y llynedd hefyd gan gynnwys cwynion gan y cyhoedd, gyda'u cytundeb. Nid yw rhai cwynion a dderbynnir yn faterion cod ymddygiad ac nid ydynt yn torri'r cod ymddygiad. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod achwynwyr yn gallu mynd yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion yn ôl i'r Swyddog Monitro gan yr Ombwdsmon. Ystyriwyd bod y prosesau sydd ar waith yng Nghaerdydd yn dda.

Trafododd y Pwyllgor gyfanswm nifer y cwynion a gafwyd yng Nghaerdydd a oedd yn uwch nag awdurdodau eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cwynion hyn yn ymwneud â gwasanaethau ac, o'r herwydd, maent y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor.
Cytunodd yr Aelodau y dylai cylchlythyr nesaf y Pwyllgor Safonau a Moeseg gynnwys erthygl ar leihau nifer y cwynion i'r Ombwdsmon. Cytunodd y Swyddog Monitro hefyd i adolygu'r canllawiau ar wefan y Cyngor, er bod canllawiau hefyd wedi'u cynnwys ar dudalen we'r Ombwdsmon.

PENDERFYNWYD:

(1) y dylid nodi'r adroddiad;

(2) bod y Swyddog Monitro yn adolygu'r canllawiau 'sut i gwyno' a gyhoeddwyd ar y wefan;

(3) bydd cylchlythyr nesaf y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys erthygl ar y Llythyr Blynyddol 2017/18

14 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 1 A 2 O 2018/19

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am nifer y cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018. Roedd yr Aelodau yn falch mai dim ond 1 gŵyn a dderbyniwyd yn ystod chwarter 1. Cynghorodd y Swyddog Monitro fod yr ymchwiliad i'r gŵyn hon yn parhau.

15 : COFRESTRU RHODDION A LLETYGARWCH A DDERBYNIWYD GAN AELODAU ETHOLEDIG

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r gofrestr o'r rhoddion a'r lletygarwch a dderbyniodd yr Aelodau yn ystod y cyfnod rhwng y 1af Hydref 2017 a'r 16eg Tachwedd 2018.

Gofynnodd yr Aelodau a fu unrhyw gynnydd o ran adolygu cofrestr Lletygarwch Swyddogion. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y mater hwn yn ymddangos ar Flaengynllun y Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd y codwyd y mater hwn yn ddiweddar hefyd yn ystod y Cyngor llawn. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd dan sylw i nodi os oes gan y Cynghorydd unrhyw argymhellion penodol, yna fe'i gwahoddir i ymateb drwy ysgrifennu at y Cadeirydd yn uniongyrchol.

Trafododd y Pwyllgor datgan pasys bysiau a dderbyniwyd gan Aelodau sy'n gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr Anweithredol Bysiau Caerdydd. Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr Aelodau dan sylw wedi cael canllawiau clir mai dim ond fel ffordd o werthuso'r gwasanaethau bws y dylid defnyddio'r pasys bws ac na ddylid eu defnyddio fel eu prif ddull o deithio.

Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gofrestr ynglŷn â gwerth bras unrhyw roddion a lletygarwch a gafwyd. Cytunodd y Swyddog Monitro i adolygu'r mater hwn ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

(1) y dylid nodi’r adroddiad;

(2) bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Bale yn ei wahodd i egluro unrhyw bryderon neu awgrymiadau penodol mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor ar gyfer Lletygarwch Swyddogion;

(3) Briff yr Aelodau i gynnwys nodyn atgoffa o'r ddyletswydd i gofrestru rhoddion a lletygarwch a gafwyd; a

(4) byddai'r Canllawiau i'r Aelodau yn cael eu hadolygu a'u hadrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

16 : CANLLAWIAU AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG

Hysbyswyd yr Aelodau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi Cyhoeddi Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr yn ddiweddar. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod canllawiau CLlLC yn gynhwysfawr iawn ac wedi'u cyflwyno'n dda. Mae ganddo hefyd y fantais o fod yn arweiniad cenedlaethol, ar ôl cael ei gynhyrchu drwy ymgynghori ag ystod eang o gyrff ac unigolion ledled Cymru.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chytuno a ddylid eu dosbarthu i bob cynghorydd a gadael i'r canllawiau presennol darfod.

Cytunodd y Swyddog Monitro i ddarparu eglurhad pellach o'r gofyniad i Aelodau gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg wrth bostio ar y cyfryngau cymdeithasol fel Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD:

(1) bod dogfen CLILC ‘Y Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr’ yn cael ei gylchredeg i bob Cynghorydd ac i'r ddogfen ddisodli canllawiau presennol y Pwyllgor; ac i’r

(2) Swyddog Monitro egluro gofynion Safonau’r Gymraeg a goblygiadau’r Safonau i ddefnydd Gynghorwyr o’r Cyfryngau Cymdeithasol.

17 : ADBORTH O ARSYLWI CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cafodd y Pwyllgor adborth o arsylwadau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Cymunedol Stuart Thomas ei fod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Cymunedol Tongwynlais. Roedd strwythur y trafodaethau’n dda ac nid oedd unrhyw bryderon. Dywedodd y Cadeirydd fod gwelliant sylweddol wedi bod yn ymddygiad y Cyngor ers yr etholiad diwethaf. Mae awdurdod Cadeirydd y Cyngor yn gryf, ac mae'n amlwg bod perthynas dda rhwng aelodau o'r gwahanol bleidiau gwleidyddol. Anogodd aelodau Annibynnol i fynychu cyfarfodydd eraill y Cyngor i’w harsylwi.

18 : RHAGLEN WAITH 2018/19

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor 2018-19.

O ran Briffio Aelodau, trafododd y Pwyllgor y broses o drefnu Sesiynau Briffio Aelodau, pa rai oedd yn orfodol ac ymgysylltu â chynghorwyr Annibynnol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu Disgrifiadau Rôl yr Aelodau ar hyn o bryd. Gofynnodd y Pwyllgor i'w safbwyntiau gael eu gofyn amdanynt yn anffurfiol dros e-bost a dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

CYTUNWYD – Cymeradwyo’r Rhaglen Waith ar gyfer 2018-19.

19 : AMLDER A RHAGLENNU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Trafododd yr Aelodau pa mor aml y cynhelid cyfarfodydd. Cytunodd yr Aelodau fod rhywfaint o werth mewn cynnal cyfarfodydd anffurfiol, ond bod angen i unrhyw gyfarfodydd anffurfiol a gynigir fod yn bwrpasol hefyd.

PENDERFYNWYD – y dylai'r Pwyllgor ailystyried y mater hwn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019.

20 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

21 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 6 MAWRTH 2019 AM 5.00 PM

Trefnwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Mawrth 2019 am 5.00pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.00 pm